

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn elusen leol sydd yn dibynnu ar eu haelodaeth a chyfraniadau gan wirfoddolwyr.

Trwy ei gwaith mae'n ymdrechu:

- Hybu gwell dealltwriaeth o fywyd gwylt, defnydd o gefn gwlad ac eu hamddiffyn.
- Meddiannu a rheoli gwarchodfeydd er mwyn cadwraeth bywyd gwylt ac i addysgu ac i ymchwilio.
- Cydweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol hefyd gyda chyrrff lleol a chenedlaethol sydd â diddordeb mewn etifeddiaeth bywyd gwylt.

Os hoffech gefnogi cadwraeth yn eich ardal, neu os am fwy o fanylion yng nglyn a gwarchodfeydd natur yn eich ardal cysylltwch â:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Prif Swyddfa ac Aelodaeth

376 Stryd Fawr

Bangor

Gwynedd

LL57 1YE

(01248) 351541

e-bost: nwwt@cix.co.uk

Swyddfa Gogledd Ddwyrain Cymru

Parc Gwledig Loggerheads

Ger Yr Wyddgrug

Denbighshire

CH7 5LH

(01352) 810469

e-bost: nwwte@cix.co.uk

www.wildlifetrust.org.uk/northwales

The North Wales Wildlife Trust is a registered charity dependent on its members and voluntary contributions.

Through its work it aims to:

- Promote a better understanding of wildlife, the use of the countryside and its protection.
- Acquire and manage reserves for the conservation of wildlife and for teaching and research.
- Co-operate with the public, communities, landowners, local councils and with other national and local bodies interested in the heritage of wildlife.

If you would like to help support conservation in your area, or want more information about nature reserves in your area, then please contact:

North Wales Wildlife Trust

HQ & Membership

376 High Street

Bangor

Gwynedd

LL57 1YE

(01248) 351541

e-mail: nwwt@cix.co.uk

North East Wales Office

Loggerheads Country Park


Nr. Mold

Denbighshire

CH7 5LH

(01352) 810469

e-mail: nwwte@cix.co.uk



MYNEDIAD

Gwelir Cors Goch rhwng Pentraeth a Benllech ar Ynys Môn. Rhyw 1.5 milltir i'r gogledd o Bentraeth ar yr A5025, ceir tro i'r chwith i bentref Llanbedrgoch. Rhyw filltir wedi i chi fynd drwy'r pentref, parciwch yn y gilfan ar y chwith, ychydig i'r gogledd o'r llwybr yn arwain i'r warchodfa (cyfeiriad grid SH 504 817).

Nid oes arwyneb ar unrhyw rai o'r llwybrau yn y warchodfa ac mae'r tir yn amrywio o fod yn gymharol wastad i fod yn gymharol serth ac anwastad ac mae'r darnau hyn yn anaddas i gadeiriau olwyn a phramiau. Giatiau yw'r fynedfa i'r warchodfa ei hun ond ceir rhai camfeydd i rai o'r caeau ynddi. Ar rai adegau o'r flwyddyn, fe all rhai llwybrau fod yn wlyb a budr iawn, a gall yr estyll pren fod yn anwastad pan fo lefel y dŵr yn uchel. Argymhellir eich bod yn gwisgo esgidiau addas.

Mae'r daflen hon ar gael mewn print mawr hefyd.

ACCESS

Cors Goch lies between Pentraeth and Benllech on the Isle of Anglesey. About 1.5 miles north of Pentraeth on the A5025 there is a left turn to the village of Llanbedrgoch. About one mile beyond the village park in the layby on the left just north of the track leading to the reserve (Grid reference SH 504 817).

There are no surfaced paths on the reserve and the terrain varies from relatively flat to moderately steep, uneven short sections unsuitable for wheelchairs or prams. Access to the reserve itself is through gates although there are stiles into some of the fields within the reserve. At some times of the year some paths can be extremely wet and muddy; the boardwalk can also be uneven at high water levels. Appropriate footwear is recommended.

This leaflet is also available in large text format.



gyda chymorth/supported by



Gyda chymorth
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru

**North Wales
Wildlife Trust**



Cors Goch

Gwarchodfa Genedlaethol Natur
National Nature Reserve




Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

Croeso i Cors Goch

Cors Goch yw un o drysorau bywyd gwyllt Ynys Môn; mae'n stori am filiynau o flynyddoedd o esblygiad.

Ar ymweliad byr â'r Warchodfa Natur hon gan yr Ymddiriedolaeth Natur, cewch gyfle i ddarganfod peth o'r bywyd gwyllt rhyfeddol, godidog a lliwgar sy'n gwneud Cors Goch yn safle o bwysigrwydd rhyngwladol.



Pa bryd bynnag y dewch chi yma, ddydd neu nos, gwanwyn neu aef, fe welwch chi neu fe glywch chi rywbeth arbennig wrth i chi droedio'r llwybrau troed o amgylch y warchodfa. Cewch ddarganfod sut mae'r creigiau, y tymhorau a'r dŵr wedi graddol siapio'r tirlun a welwch chi heddiw.



Hefyd cewch ddysgu am y cysylltiadau cryf gyda phobl yng Nghors Goch a sut maent wedi gadael eu marc. Dim ond dechrau eich stori yw'r daflen hon.

Ceir byrddau gwybodaeth yn y warchodfa yn darparu manylion pellach i chi am fydd natur y safle. Mae taflen am ddaear y safle'n darparu gwybodaeth am yr agwedd ryfeddol hon ar y warchodfa.

Welcome to Cors Goch



Cors Goch is one of Anglesey's wildlife treasures; its story was millions of years in the making.

A short visit to this Wildlife Trust Nature Reserve will give you the chance to discover some of the amazing, wonderful and colourful wildlife that makes Cors Goch internationally important.



Whatever time of the day or year you visit you will find something to see and hear as you follow the paths around the reserve. You can discover how the rocks, seasons and water have slowly shaped the landscape you see today. And you can also learn about the strong links with people at Cors Goch and how they have left their mark. This leaflet is just a start to your story.

Information boards are in place which provide further detail on the wildlife of the reserve. A geology leaflet provides information on this fascinating aspect of the reserve.

Cael hyd i'ch ffordd o gwmpas y warchodfa...

Os mai awr sydd gennych, cymerwch y llwybr hwn am flas ar yr hyn sydd gan Gors Goch i'w gynnig.

Os oes gennych hanner diwrnod, gallech ymestyn eich llwybr ac ymweld â chynefinoedd pwysig y bywyd gwyllt yng Nghors Goch.

Os oes gennych ddiwrnod cyfan, gallwch fwynhau'r warchodfa gyfan drwy ddilyn y llwybr hwn a'r dolennau ochr ac archwilio'r mannau tawelaf. Mae yma ddigon o leoedd difyr i chi gael eich cinio!

Bydd arwyddion yn cael eu gosod ar y llwybrau hyn ar ddiwedd 2005. Ceir manylion llawn am y llwybrau troed cyhoeddus ar fap Landranger (114) ac Explorer (213) yr Arolwg Ordnans.



250m

Finding your way...


If you have one hour then take this route for a flavour of what Cors Goch has to offer.

If you have half a day, then you could extend your route and visit the important wildlife habitats at Cors Goch.

If you have the whole day you can take in the whole reserve by following this route and the side loops, exploring the quietest corners with plenty of spots for lunch!

These routes will be way-marked in late 2005.

Full details of public footpaths can be found on the Ordnance Survey Landranger (114) and Explorer (213) maps.



Mae Cors Goch wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd. Mae yma ddau fath o greigiau hynafol. Cadwch lygad am y calchfaen llwyd mân a'r tywodfaen cras o gerrig mân yn y waliau wrth i chi ddod i mewn i'r warchodfa. Yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf, tua 16,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhewlifau'n cafnio'r cwm ble mae Cors Goch heddiw. Erbyn hyn, mae darnau o ddŵr agored ar ôl o hyd ond mewn rhannau helaeth o'r cwm mae llawer o fawn wedi ymgasglu.

Gallwch weld ble mae'r creigiau'n newid yn ôl y planhigion sy'n tyfu ar y pridd cysylltiedig â hwy. Mae Rhosyn y Graig, Teim a Thegeirian y Waun ymhlith y planhigion niferus a welwch yn y pridd calchog. Arferai'r calchfaen gael ei chwarelu ar un adeg ar gyfer adeiladu waliau a ffermdai.

Lle mae'r tywodfaen mwy asidig yn agos at yr wyneb, fe welwch blanhigion amrywiol iawn a darnau o felinfaen segur wedi malu. Arferai'r rhain gael eu gwneud gan ddefnyddio'r graig yma. Y Grug Piws a'r Eithin Gorllewinol gyda'i flodau melyn yw'r planhigion mwyaf poblogaidd yma. O edrych yn fanwl, efallai y gwelwch chi Seren y Gwanwyn a Thresgl y Moch hefyd. Gellir gweld glöyn byw lâr Fach y Ffridd yn hedfan o amgylch y grug yn aml.

Gyd a threigl y flwyddyn gwelir llawer o newidiadau yng Nghors Goch ond mae digon o liw ac amrywiaeth newydd i'w weld o hyd. Rhwng melyn llachar y Briallu ym mis Ebrill a glas golau Bwtsias y Gog ym mis Medi, ceir enfys o liwiau o amgylch y warchodfa drwy gydol y flwyddyn. Wrth i'r blodau flodeuo, gallwch chwilio am löynnod byw fel y Copor Bach a'r Brithog Perlog Bach yn hedfan o'u cwmpas. Ond mae'r Eithin fel pe bai yn ei flodau drwy'r amser – ceir dau rywogaeth gwahanol ar y warchodfa. Ac mae niwl y bore cynnar yn datgelu llawer o we pry cop dros y llwyni esgyrnog hyn.

Yn yr haf, mae'r boreau'n llawn prysurdeb yr adar sy'n nythu. Bydd y Troellwyr Bach wedi cyrraedd yn ddiweddar o'u mudo pell. Clywir cri Clochdar y Cerrig ar draws y rhos a gwelir y Bwncathod yn hofran uwch ben. Yn haul hwyr y gyda'r nos, gellir gweld patrymau'r mawn a dorrwyd ac a adawyd ym mhen deheuol y warchodfa fel rhyw gefnen hir.

Ymhlith lliwiau tawelach a niwloedd yr hydref, wrth i aeron y drain gwynion a'r eirin tagu aeddfedu, mae heidiau bychain o Goch Dan-aden a Socan Eira i'w gweld yn hedfan dros y warchodfa yn aml. Wrth i'r gaeaf droi'n wanwyn, mae grifft llyffant yn olygfa gyfarwydd wrth i chi gerdded ar hyd yr estyll pren.

Mae'r dŵr sy'n llifo i mewn i Gors Goch yn mynd drwy galchfaen ac felly mae'r mawn yn gyfoethog mewn calch. Efallai y clywch chi sŵn y dŵr yn codi yn un o'r ffynhonnau. Yn ymyl y ffynhonnau hyn, ar hyd ymyl y gwlybdir, ceir amrywiaeth rhagorol o blanhigion; cadwch lygad am y Corsfrwyn Duon, Tegeirian Cors y Gogledd a Thafod y Gors, sy'n bwyta pryfed. Hefyd ceir darnau helaeth o Helyg Mair, sydd ag arogl hyfryd iawn.

Mae lefel y dŵr yn y cwm yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Os yw'n uwch na'r mawn, allan ar hyd yr estyll pren, y Cawn Cyffredin tal, sy'n debyg i laswellt, a'r Llymfrwyn, yw'r planhigion mwyaf cyffredin. Ond cadwch lygad am Ffa'r Gors a Phumbys y Gors yn tyfu yn eu plith. I lawr yn y dŵr, efallai hefyd y gwelwch chi ddeiliach mân a chodau'r Chwysigenddail.

Yn hedfan uwch ben efallai y gwelwch chi was y neidr mawr, fel yr Hebogwr Cyffredin, un o'r pymtheg rhywogaeth i'w canfod ar y warchodfa.

Yng nghanol y cawn tal, mae adar fel Telor yr Hesg a Bras y Cyrs yn nythu. Yn ystod misoedd y gaeaf, mae'r Giach Cyffredin yn bwydo yng nghanol y cawn yn aml.

Mae merlod pori'n crwydro drwy'r gwlybdir yn aml ac yn helpu i ddarparu'r amodau priodol ar gyfer planhigion a phryfed.





rock

sun

water

Cors Goch has been millions of years in the making. The oldest rocks are of two types. Look out for the grey, fine grained, limestone and the coarse, pebbly sandstone in the walls as you enter the reserve. During the last Ice Age, around 16,000 years ago, glaciers gouged out the valley where Cors Goch lies. Today, there are still areas of open water left but over large areas of the valley vast amounts of peat have accumulated.

You can follow where the rocks change by the plants that grow on the soils associated with them. Common Rock-Rose, Thyme and Green-Veined Orchid are just a few of the many plants that you can find on the lime-rich soils. The limestone was once quarried for building walls and farmhouses.

Where the more acidic sandstone is close to the surface you will find very different plants and maybe parts of the abandoned, broken millstones this rock was used to make. Purple Heather and yellow-flowering Western Gorse are the most abundant plants. If you look closely you may see Spring Squill and Tormentil. The Small Heath butterfly can often be seen flitting around the heather.

The passing of the year brings many changes at Cors Goch but there is always new colour and variety to see. Between the bright yellow of Primroses in April and the pale blue of the Harebell in September there is a rainbow splash of colour around the reserve. As the flowers blossom you can look for Small Copper and Small Pearl-Bordered Fritillary butterflies. But Gorse always seems to be in flower – there are actually two different species on the reserve. And the early morning mists reveal numerous spider's webs covering these spiny bushes.

Summer mornings are full of activity for the many nesting birds. Grasshopper Warblers will recently have arrived from their long migrations. The calls of Stonechats cross the heaths, while high above Buzzards may be soaring. In the late evening sun the ridge-like patterns of long abandoned peat cuttings can be seen at the southern end of the reserve.

Among the fading colours and mists of autumn, as the hawthorn berries and sloes ripen, small flocks of Redwing and Fieldfare often pass over the reserve.

As winter turns to spring frog spawn is a common sight along the boardwalk.

Water flowing into Cors Goch passes through the limestone and so the peat has become lime-rich. You may be able to hear the water bubbling up in one of the springs. Near these springs, along the edge of the wetland, a wonderful range of plants can be found; look for Black-bog Rush, Northern Marsh Orchid and the insect-eating Butterwort. There are also large patches of the wonderfully fragrant Bog Myrtle.

Water levels in the valley vary throughout the year. Where they remain above the peat, out along the boardwalk, the tall, grass-like Common Reed and Saw Sedge are the most abundant plants. But look for Bog Bean and Marsh Cinquefoil growing amongst them. Down in the water you may also see the tiny leaves and bladders of Bladderwort.

Flying overhead you may see large dragonflies such as the Common Hawker, one of the fifteen species found on the reserve.

Amongst the tall reeds birds such as Sedge Warbler and Reed Bunting nest. During the winter months Snipe often feed amongst the reeds.

Grazing ponies wander through the wetland and help provide the right conditions for plants and insects.